Y proffwyd trist

Dyfalbarhad / ffyddlondeb / gostyngeiddrwydd

Jeremeia: 640–587 cc

Ydych chi'n gwybod beth ydi proffwyd? Yn y Beibl mae yna sôn am broffwyd yn aml iawn. Dyn ydi proffwyd sy'n cael neges arbennig gan Dduw. Ar ôl i'r proffwyd gael neges gan Dduw, mae i fod i rannu'r neges â phobl eraill. Yn y stori hon mae Jeremeia yn cael neges arbennig gan Dduw. Ond dydi'r bobl sy'n gwrando ar y neges ddim yn barod i wrando.

Bachgen ifanc oedd Jeremeia pan glywodd lais Duw yn galw arno. Dywedodd Duw wrtho, "Rydw i wedi dy ddewis di i fod yn broffwyd i mi. Mi fyddi di'n siarad efo'r bobl amdanaf i."

Roedd Jeremeia wedi dychryn.

"Fedra i ddim bod yn broffwyd. Mi ydw i'n rhy ifanc. A beth bynnag, fuaswn i ddim yn gwybod beth i'w ddweud wrth y bobl."

"Paid â phoeni," meddai Duw wrtho, "mi fydda i yn dy helpu. Fyddi di ddim yn gwneud y gwaith ar dy ben dy hun."

Dywedodd Duw wrth Jeremeia ei fod yn caru'r bobl i gyd. Ond doedden nhw ddim yn gwrando ar Dduw.

"Rwyf am i ti ddweud hyn wrth y bobl," meddai Duw wrtho. "Dywed wrthyn nhw os na fyddan nhw'n gwrando y bydd rhywbeth mawr yn digwydd iddyn nhw!"

Dechreuodd Jeremeia ar ei waith. Ond doedd y bobl ddim yn gwrando ar y proffwyd.

Gerllaw'r deml roedd crochendy. "Edrychwch ar y crochenydd wrth ei waith," meddai Jeremeia. "Os ydi'r crochenydd yn gwneud potyn o siâp anghywir, beth mae'n ei wneud?"

"Mae o'n malurio'r potyn a gwneud un arall," meddai'r bobl.

"Ydi," meddai Jeremeia, "a dyna fydd Duw yn ei wneud efo pobl sydd ddim yn gwrando arno."

Dechreuodd y bobl wrando o ddifri ar Jeremeia. Cododd Jeremeia botyn pridd ac yna ei hyrddio ar lawr. Roedd y potyn yn ddarnau mân.

"Dyna fydd Duw yn ei wneud i chi," meddai Jeremeia gan bwyntio at y bobl o'i gwmpas.

Erbyn hyn roedd y bobl yn gas tuag at Jeremeia. Rhoddwyd Jeremeia yn y carchar. Doedd y bobl ddim yn hoff o'r hyn oedd ganddo i'w ddweud. Tra oedd Jeremeia yn y carchar daeth y gelyn ac ymosod ar y ddinas. Daliwyd y bobl a'u clymu â rhaffau. Aeth y gelyn â nhw

i'w gwlad eu hunain. Roedd y tai yn cael eu dymchwel. Llosgwyd y palas. Tynnwyd y deml i lawr. Dim ond ychydig o bobl oedd ar ôl yn y ddinas. Un o'r rhain oedd y proffwyd Jeremeia.

Roedd y proffwyd yn drist iawn. Edrychodd o gwmpas y ddinas. Dim ond cerrig a rwbel oedd ymhobman. Ond fe gofiodd yr hyn roedd Duw wedi ei ddweud wrtho. Roedd Duw wedi dweud y byddai'r gelyn yn dod ac yn dinistrio'r ddinas. Ond roedd Duw wedi dweud hefyd, "Pan fydd y bobl wedi dysgu bod yn ufudd i mi, fe ddof â nhw yn ôl i'r ddinas. Y ddinas ydi eu cartref," meddai Duw.

Roedd Duw yn dal i garu ei bobl. Ar ôl amser maith fe gafodd y bobl ddod yn ôl i'w gwlad eu hunain. Ond erbyn hynny roedd Jeremeia wedi marw.

"Euthum i lawr i dŷ'r crochenydd, a'i gael yn gweithio ar y droell ... Fel clai yn llaw'r crochenydd, felly yr ydych chwi yn fy llaw i, tŷ Israel."

Jeremeia 18:3-6

O Dduw,
mi ydw i wrth fy modd
cael bod yn boblogaidd,
pawb yn edrych arna i,
pawb yn ffrindiau efo mi,
ambell un yn fy ffansïo i.
Y fi...y fi...y fi.
Dysg i mi gofio
fod yna bobl eraill
a hefyd bod yna gyfnod
pan fydda i yn amhoblogaidd.
Helpa fi yn arbennig, bryd hynny.
Amen.

Fe allwch chi fod yn amhoblogaidd am eich bod yn dal y syniadau gorau.
Fe all yr athro/ athrawes yn yr ysgol fod yn amhoblogaidd am ei bod/fod yn disgyblu.
Trafodwch.